




Llawlyfr Ysgol Y Garnedd



CYNNWYS

- Gair o Groeso
- Nod ac Amcanion
- Staff yr Ysgol
- Y Corff Llywodraethol
- Polisi Mynediad
- Polisi Iaith
- Ethos a Gwerthoedd
- Perthynas yr Ysgol a'r Cartref
- Gwefan Ysgol
- Trefniadaeth yr Ysgol
- Trefn y Dosbarthiadau
- Trefniadaeth y Flwyddyn Feithrin
- Y Diwrnod Ysgol
- Bws Ysgol ag Amseroedd Bws
- Gwisg Ysgol
- Absenoldebau
- Presenoldeb
- Cynnal Ymddygiad Da a Disgyblaeth
- Diogelwch
- Tywydd garw
- Cyfleodd Cyfartal
- Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Anghenion Addysgol Ychwanegol
- Disgyblion ag anableddau
- Y Cwricwlwm
- Addysg Rhyw
- Addysg Grefyddol a Chyd-addoli
- Chwaraeon ac Addysg Gorfforol
- Gwersi Offerynnol
- Gwersi Drama
- Cyngor Ysgol
- Grŵp Eco Gwyrdd ac Ysgol Iach
- Gwaith Cartref
- Clybiau ar ôl Ysgol
- Clwb deugain munud
- Yr Urdd
- Cytundeb Cartref Ysgol, Darllen
- Asesu - Nosweithiau Rhieni Ffurfiol
- Ymweliadau
- Bwlio
- Tynnu Lluniau
- Canllawiau Amddiffyn Plant
- Pryderu am Blentyn
- Trefn Gwyno
- Trip Addysgol
- Trip Ysgol
- Taliadau
- Rhestr Prisïau
- Anfon Arian i'r Ysgol
- Dogfennau'r Ysgol
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
- Gwybodaeth Bersonol
- Achosion Da
- Datganiad ar ysmegu
- Cŵn ar dir yr ysgol

**Ysgol y Garnedd
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2LX
Ffon: 01248 352534
e-byst: pennaeth@garnedd.gwynedd.sch.uk
Pennaeth – Llion Williams
Cadeirydd y Llywodraethwyr – Catrin Elis Williams**

GAIR O GROESO

Pwrpas y llyfryn hwn yw rhoi darlun ichi o nodweddion a threfniadaeth Ysgol y Garnedd.

Mae Ysgol y Garnedd yn gwasanaethu dinas Bangor a phentrefi Talybont a Llandygái, er bod rhai disgyblion yn byw tu allan i'r dalgyloch hon.

Mae 334 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd a daw bron i 40% o gartrefi di-Gymraeg. Ymfalchiwn yn y ffaith bod rhieni Cymraeg a di-Gymraeg yn dymuno i'w plant dderbyn addysg ddwyieithog dda mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig, ac mae sicrhau'r ethos hwnnw'n bwysig iawn i ni. Daw'r dysgwyr i siarad Cymraeg yn rhyfeddol o rwydd o gofio mai proses sy'n cael ei meithrin dros gyfnod o amser yw dwyieithrwydd, ac adlewyrchir hyn ym mholisi iaith yr ysgol. Erbyn cyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol mae'r disgyblion yn hyderus yn y ddwy iaith. Mae tystiolaeth fydeang a chadarn bod plant yn elwa o dderbyn addysg ddwyieithog gytbwys.

Rydym yn ffodus bod gennym Gylch Meithrin a Clwb y Garnedd ar dir yr ysgol sy'n cynnig gwasanaeth gwerthfawr ychwanegol. Mae'r Cylch ar gyfer y plant lleiaf, a'r Clwb yn darparu gofal tu hwnt i oriau ysgol i'r holl ddisgyblion.

Un o'm prif flaenoriaethau fel Pennaeth yw sicrhau bod y plant yn hapus yn yr ysgol. Cyflawnir hynny trwy ymarfer disgyblaeth deg, mynnu safonau uchel o ymddygiad, ymateb yn chwim a chadarnhaol i unrhyw fwlio a gwrando ar lais y plant, e.e. trwy gyfrwng y Cyngor Ysgol. Mae llwyddiant yn dilyn pan fo'r plant yn hapus.

Nod yr ysgol yw sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial. Rydym yn datblygu'n dulliau dysgu yn gyson er mwyn hwyluso hyn. Mae gennym ddisgwyliadau uchel er mwyn cefnogi'r disgyblion i'r eithaf.

I gloi, mae cydweithio rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol. Mae gennym egwyddor o fod â 'drws agored' er mwyn annog cyfathrebu da gyda theuluoedd.

Ebrill 2019

NOD

- Creu awyrgylch ac amgylchfyd lle gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu'n unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.
- Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg Leol a'r Llywodraethwyr trwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Galluogi pob disgybl i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallant gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.
- Creu ymwybyddiaeth yn y plant o'u cefndir Cymreig cyfoethog trwy roi pwyslais arbennig ar werthfawrogi traddodiadau a diwylliant Cymru.
- Magu parch at werthoedd moesol a Christnogol.
- Hybu hunanfyneigiant trwy'r celfyddydau a pharatoi'r plentyn i ymgymryd â'i le yn y gymdeithas ddwyieithog.
- Hybu iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion a'r staff.

AMCANION

- Sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal rhwng athrawon a'i gilydd, athrawon a disgyblion, a disgyblion a'i gilydd, sy'n galluogi disgyblion i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunanhyder.
- Creu amgylchedd yn yr ysgol fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydferth.
- Sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl, a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys.
- Sicrhau bod polisi iaith yr Awdurdod yn cael ei weithredu'n effeithiol yng nghydestun y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Sicrhau cydbwysedd mewn trefniadaeth a dulliau dysgu trwy'r ysgol.
- Manteisio ar wahanol arbenigeddau o fewn yr ysgol a chreu trefniadaeth hyblyg i sicrhau bod y disgyblion yn gallu manteisio ar yr arbenigeddau hynny.
- Sicrhau cyfle i hyfforddi'r holl staff yn ôl gofynion ac anghenion y disgyblion, y cwricwlwm a'r gofynion statudol.
- Meithrin hunanddisgyblaeth, hunanbarch a hunanhyder yn y disgyblion.
- Darparu cyfle llawn i ddisgyblion ddatblygu eu doniau a'u diddordebau.
- Datblygu sgiliau disgyblion ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys sgiliau oriau hamdden.
- Meithrin yn y disgyblion falchder o'u bro a'u gwlad, a datblygu parch ynddynt at y byd y maent yn byw ynddo.

STAFF YR YSGOL

Pennaeth

Dirprwy

Mr Llion Williams

Mrs Ann Gash

Mrs Ceinwen Dwyfor-Clark

Mrs Ruth Owen

Mrs Sioned Roberts

Mrs Lowri Elis

Mrs Gwenda Edwards

Mrs Nia Thomas

Mrs Esyllt Bryn Jones

Mrs Sioned Jones

Mrs Anona Farrell-Jones

Mr Carl Evans

Miss Glenda Rigby

Mrs Elin Williams

Mr Rhun Griffith

Mrs Cheryl Roberts

Meithrin/Derbyn

Meithrin/Derbyn

Meithrin/Derbyn

Meithrin/Derbyn

BI 1 a 2

BI 1 a 2

BI 1 a 2

BI 1 a 2

BI 3 a 4

BI 3 a 4

BI 3 a 4

BI 5 a 6

BI 5 a 6

BI 5 a 6

C.P.A.

Cymorthyddion Cyfnod Sylfaen

Miss Louise Roberts

Mrs Bethan Owens

Mrs Emma Roberts

Miss Stacey Davies

Miss Sioned Hughes

Miss Anita Williams

Mrs Delyth Roberts

Mrs Claire Roberts

Cymorthyddion CA2

Mrs Gillian Davies

Mrs Llinos Davies Jones

Miss Sian Evans

Cymorthyddion Addysg Arbennig

Miss Ffion Jones

Mrs Sian Whitton

Uned Addysg Arbennig

Miss Bethan Williams

Cymhorthydd Clerigol

Mrs Anne Rees Owen

Mrs Della Jones

Gofalwr a Dyn Lolipop

Mr Arwel Owen

Glanhawyr

Mrs Heather Price

Mr Arwel Owen

Cogyddes

Mrs Heulwen Parry

Cynorthwywyr y Gegin

Mrs Jane Ellis

Mrs Caron John

Mrs Heather Price

Goruchwylwyr Cinio

Mrs Anne Rees Owen

Mrs Eirlys Hughes

Mr Arwel Owen

Clerc Cinio

Mrs Anne Rees Owen

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Dr Catrin Elis Williams
Is-gadeirydd	Mrs Kathy Siôn
Clerc y Llywodraethwyr	Mrs Della Jones
Rhieni Llywodraethwyr	Mr Jason Burke Mr Aled Davies Mr Peredur Williams Mrs Sian Eleri Morgan
Cynrychioli'r Awdurdod Addysg	Y Cynghorydd Dr Elin Walker Jones Dr Catrin Elis Williams Dr Jason Walford Davies Mr John Wyn Williams (aelod awdurdod ychwanegol)
Cymunedol	Mrs Cathy Sion Mrs Sonia Pritchard Mr Dafydd Jones
Pennaeth	Mr Llion Williams
Cynrychiolydd yr athrawon	Mrs Gwenda Edwards
Cynrychiolydd staff ategol yr ysgol	Mrs Sian Whitton
Aelod di-bleidlais	Mrs Ann Gash

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae Ysgol y Garnedd yn ffodus iawn i gael Corff Llywodraethol ymrwymedig a gweithgar. Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol yn ôl y gyfraith, am reolaeth gyffredinol yr ysgol. Diben y corff Llywodraethol yw cynghori, darparu gwybodaeth a chefnogi'r Pennaeth a staff yr ysgol. Bydd y corff llawn yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor a cheir cyfarfodydd rheolaidd o'r is-bwyllgorau i drafod agweddau staffio, cyllid, addysg arbennig, cwricwlwm ac adeiladau.

Mae llywodraethwyr yn cael eu penodi i gynorthwyo i:-

1. benderfynu beth sydd yn cael ei ddysgu
2. safoni ymddygiad y plant
3. gyfweld a phenodi staff
4. benderfynu sut mae gwario'r gyllideb

Mae llywodraethwyr yn:-

1. rhieni
2. athrawon
3. gynrychiolwyr cynghorau lleol
4. gynrychiolwyr y gymuned

Mae rhiant llywodraethwr:-

1. gyda phlentyn yn yr ysgol.
2. yn cael ei ethol/hethol gan rieni'r ysgol
3. yn gwasanaethu fel bob llywodraethwr arall am gyfnod o 4 blynedd.

Mae rhiant llywodraethwr yn allweddol ar gyfer dod â barn rhieni i'r corff cyfan, ond gallant drafod fel unigolion. Mae ganddynt statws cyfartal a'r hawl i fwrw pleidlais. Byddwch chi fel rhieni yn ethol 3 rhiant llywodraethwr am gyfnod o 4 mlynedd.

POLISI MYNEDIAD

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion Meithrin yn rhan amser (bore/prynhawn) i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol rhaid felly cyflwyno ceisiadau i Gyngor Gwynedd drwy'r ysgol cyn Chwefror y 1af bob blwyddyn. Bydd y ffurflenni pwrpasol yn cael eu dosbarthu gan yr ysgol neu meant ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Yn yr un modd, dilynrir Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosglwyddo disgyblion hŷn o un ysgol i'r llall. Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 heb fod yn medru'r Gymraeg i fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla am dymor.

POLISI IAITH

Mae'r ysgol wedi ei dynodi'n Ysgol Gymraeg. Cymraeg yw iaith swyddogol a gweinyddol yr ysgol. Pan drefnir cyfarfodydd i rieni (e.e. croesawu rhieni newydd a chyfarfodydd blynyddol y Llywodraethwyr) byddant trwy gyfrwng y Gymraeg ond paratoir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Fe anfonir gohebiaeth yn Gymraeg yn unig at deuluoedd sy'n deall yr iaith a'n ddwyieithog at deuluoedd di-Gymraeg. Disgwylir i riant sy'n gallu siarad Cymraeg wneud hynny gyda'i blentyn ar bob achlysur er mwyn hybu ei ddatblygiad diwylliannol ac addysgol.

Pan dderbynnir newydd-ddyfodiad di-Gymraeg i'r ysgol, fe sicrheir eu bod yn hapus ac yn gartrefol cyn gwneud pob ymdrech i ddysgu'r Gymraeg iddynt, cyn gynted ag sy'n bosib, er mwyn iddynt gymryd eu lle'n naturiol ym mywyd yr ysgol a'r gymdeithas.

Polisi dwyieithog yw polisi Cyngor Gwynedd a meithrin dwyieithrwydd cyflawn yw nod y polisi hwnnw. Amcenir at wneud plant yn ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd oed ymadael â'r ysgol yn un ar ddeg.

Bydd y rhan fwyaf o waith yr Uned Plant dan 5 trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i blentyn symud trwy'r ysgol bydd y glorian ieithyddol yn newid: erbyn Blynnyddoedd 5 a 6 bydd y defnydd o'r ddwy iaith yn gyfartal, ac adlewyrchir hynny yn eu llyfrau gwaith.

Siarter Iaith Gwynedd

Mae'r ysgol wedi ymrwmo i Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd.

Saith nod y Siarter Iaith yw:

1. Gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.
2. Sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgol.
3. Gweithredu'r Cwricwlwm Cymreig.
4. Meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth Cymru ymysg disgyblion yr ysgol.
5. Sicrhau bod pob agwedd o fywyd bob dydd yr ysgol a'i chymuned yn Gymraeg a Chymreig.
6. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol.
7. Cefnogi staff i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn y gweithle.

Gelli'r gweld copi o'r Polisiâu Iaith drwy gysylltu â'r Pennaeth.

ETHOS A GWERTHOEDD

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang. Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol. Ymfalchiwn fod y mwyafrif o ymwelwyr â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a disgyblaeth sy'n bodoli yn yr ysgol, a'r modd y bydd y disgyblion newydd yn ymgartrefu'n fodlon a buan.

Ceir awyrgylch ddiwyd yn y dosbarthiadau ac fe'i hatgyfnerthir gan arddangosfeydd o waith y plant. Bydd hyn yn dangos parch at waith ac ymdrechion y disgyblion ac yn sicrhau amgylchedd ysgogol a deniadol.

Yn yr arolwg diwethaf gan Estyn (Hydref 2012) nodwyd bod 'ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol, ac ym mhob sefyllfa, yn rhagorol. Maent yn gwrtais â'i gilydd ac wrth oedolion yn yr ysgol, ac yn dangos hunanddisgyblaeth gref wrth symud o gwmpas yr ysgol.'

Yn ein hysgol ni rydym ni'n

- siarad Cymraeg ymysg ein gilydd
- garedig a chwrtais efo pawb
- gwneud ein gorau glas, yn gwranddo a chanolbwyntio
- bod yn ofalus o'n pethau ein hunain a phethau pobl eraill
- cadw pob man yn daclus a diogel bob amser
- gallu gweithio'n annibynnol

Mae 'Cân y Garnedd' yn un y byddwn yn ei chanu'n aml, gan ei bod yn crynhoi llawer o'n dyheadau fel ysgol:

Cân y Garnedd

Weli di wawr hapusrwydd ar wynebau,
a'r miri wrth i ffrindiau ddod ynghyd?
Weli di law yn estyn am law arall,
a gwen yn cyfarch gwen yn wyn ein byd?

*Ac mae'r haul yn codi beunydd dros y Garnedd,
yn bwrw'i wrid dros doeau llwyd y stryd.
Gyda'n gilydd cerddwn ninnau yn ei lewyrch,
yn ein chwarae, yn ein gwaith, yn wên i gyd.*

Glywi di heniaith yn llawn bywyd ifanc,
a chân yfory yn ei seiniau hi?
Glywi di'r iaith yn dawnsio ar dafodau,
a'n ffrydio'n fyw dros ein gwefusau ni?

*Ac mae'r haul yn codi beunydd dros y Garnedd,
yn bwrw'i wrid dros doeau llwyd y stryd.
Gyda'n gilydd cerddwn ninnau yn ei lewyrch,
yn ein chwarae, yn ein gwaith, yn wên i gyd.*

Deimli di'r gwres ar aelwyd glòs yr ysgol,
a'i gofal hi amdanom ni mor dynn?
Deimli di'n gofal ninnau am ein gilydd,
yn mynd ar draws y byd yn obaith gwyn?

Llion Jones a Pwyll ap Siôn

PERTHYNAS YR YSGOL Â'R CARTREF

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Rydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.

Mae hon yn ysgol 'agored', h.y. mae ynddi groeso i rieni bob amser. Mae anogaeth i rieni alw i mewn, er yr hoffem i chi werthfawrogi na chaiff athrawon dosbarth drafod gwaith disgyblion gyda rhieni heb drefnu ymlaen llaw gyda'r Pennaeth.

Yn ogystal â chael ymweld yn unigol, caiff rhieni hefyd dri chyfle ffurfiol yn ystod y flwyddyn i ymweld â'r ysgol. Byddwn yn cynnal tair Noson Agored, un bob tymor. Gofynnwn yn garedig ichi ddod rhyw ddeng munud ynghynt na'r amser a glustnodir ar eich cyfer i weld gwaith eich plentyn cyn mynd at yr athro/athrawes. Anfonir taflen amser i chwi a chlustnodir deng munud i bob plentyn. Petaech yn methu â bod yn bresennol mae modd i chwi drefnu â rhiant arall i gyfnewid amseroedd neu gysylltu â'r ysgol i weld a oes modd aildrefnu cyfarfod.

Rydym yn gwahodd rhieni yn y Cyfnod Sylfaen i mewn i'r dosbarthiadau i weld yr arddangosfeydd a llyfrau'r plant ar bnawn agored a chynhelir hyn dair gwaith y flwyddyn. Yn ychwanegol at y Nosweithiau Agored hyn, byddwn yn cynnal Cyngerdd Nadolig yn neuadd yr ysgol/Pontio a Mabolgampau yn ystod tymor yr haf. Anogir chi i ymuno yn yr holl weithgareddau hyn, yn ogystal â'r gweithgareddau a drefnir gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae'n bwysig dros ben bod rhieni'n sylweddoli gwerth perthynas onest ac agored rhyngddynt hwy â'r ysgol. Mae'r bartneriaeth yn hanfodol inni gyrraedd ein nod o ddarparu'r addysg orau bosib i'r plant; mae'n dibynnu ar gyfathrebu da a chydweithio rhwng y cartref a'r ysgol bob amser.

Mae gwybodaeth am gwricwlwm yr ysgol a gwybodaeth a lluniau ar wefan yr ysgol fel bod rhieni'n ymwybodol o themâu a rhaglenni gwaith y tymor.

GWEFAN YSGOL

Mae gan yr ysgol ei gwefan ei hun a chanddi ddwy ran, y naill ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol a'r llall at ddibenion rhieni gyda mynediad trwy gyfrinair yn unig.
<http://www.ysgolygarnedd.org.uk/>

Bydd modd i rieni gysylltu â'r ysgol trwy e-bostio. Anfonir llythyrau ar ffurf copi papur neu yn electronig hyd nes y bydd rhiant yn ein hysbysebu'n wahanol.

TREFNIADAETH YR YSGOL

Mae'r ysgol wedi'i rhannu yn Gyfnod Sylfaen ac yn Adran Iau. Er bod y plant yn cael eu haddysgu gan amlaf yn eu grŵp dosbarth eu hunain, gellir tynnu disgyblion unigol neu grwpiau ohonynt allan o'r dosbarth o bryd i'w gilydd. Mae a wnelo hyn, fel rheol, gyda gwersi cerdd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae dosbarthiadau'r ysgol wedi eu trefnu fel a ganlyn:

Grŵp Blwyddyn

Nifer y Dosbarthiadau

Adran y Babanod

Dosbarth Derbyn/Meithrin	3
Blwyddyn 1 a 2	3

Adran Iau

Blwyddyn 3 a 4	3
Blwyddyn 5 a 6	3

TREFN Y DOSBARTHIAU

Rhennir y grŵp yn gyfartal rhwng tair athrawes. Bydd y plant Meithrin yn rhannu dosbarth â phlant Derbyn. Ni fydd yr un o'r tri dosbarth yn fwy na 30 mewn nifer.

Wrth i'r plant gyrraedd yr Uned dan 5, bydd angen didoli i dri dosbarth ar sail pedwar maen prawf:

- cydbwysedd bechgyn a genethod ym mhob dosbarth
- cydbwysedd ieithyddol
- amrediad o alluoedd ym mhob dosbarth
- personoliaethau

Byddant yn treulio dwy flynedd ym mhob Uned e.e. Uned dan 5 ac yn newid athrawes pob blwyddyn. Yr un ydy'r drefn ym Mlynnyddoedd 1-2, 3-4 a 5-6. Byddwn yn ail ddiddoli'r dosbarthiadau ar ddiwedd dosbarth Meithrin, Derbyn, BI 2 a BI 4.

TREFNIADAETH Y FLWYDDYN FEITHRIN

Pan fo plentyn yn cychwyn ei gyfnod yn Ysgol y Garnedd ym mis Medi, h.y. yn y dosbarth Meithrin, mae sawl dewis ar gael i rieni.

Yn gyntaf, bydd y plentyn (os yw wedi cael ei benblwydd yn dair oed cyn 31 Awst) yn cael mynediad i'r ysgol am gyfnod o ddwy awr y dydd, un ai yn y bore neu'r prynhawn, yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod Addysg.

Fodd bynnag, mae opsiynau eraill. Gall fynychu'r Cylch Meithrin (yn y Caban) o dan adain y Mudiad Ysgolion Meithrin, yn ogystal â'r Uned dan 5 yn yr ysgol. Hynny yw, mynychu'r ysgol yn y bore a'r Cylch Meithrin yn y prynhawn neu *vice versa*. Petai rhieni'n dymuno i'r plant aros ar dir yr ysgol trwy'r dydd, gellir manteisio ar wasanaeth Clwb y Garnedd sy'n gofalu am y plant o 11 y bore tan 12.50 o'r gloch (Clwb Amlap).

Dosbarth Meithrin
08.50 – 11.00

Clwb y Garnedd
11.00 – 12.50

Cylch Meithrin
12.50 – 15.00

neu

Cylch Meithrin
08.50 - 11.00

Clwb y Garnedd
11.00 – 12.50

Dosbarth Meithrin*
12.50 – 14.50

Tua chanol Mai bob blwyddyn bydd yr ysgol yn cysylltu â darpar rieni i ofyn pa sesiwn (bore neu brynhawn) y dymunant i'w plentyn ei mynychu.

Rhaid pwysleisio bod yr ysgol yn ceisio'i gorau i wireddu dymuniad y rhieni; fodd bynnag, yn y pen draw, bydd raid rhannu'r plant yn dri grŵp cyfartal, er tegwch i bawb.

Nid yw sicrhau lle i blentyn yn y Cylch Meithrin yn gwarantu lle iddo yn yr ysgol.

Mae hefyd yn ofynnol i rieni wneud cais am le yn y Meithrin a Derbyn erbyn Chwefror 1af y flwyddyn y dymunent gael mynediad yn y mis Medi. Cyngor Sir Gwynedd sydd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau am le yn Ysgol y Garnedd.

Er mwyn sicrhau lle yn y Cylch a/neu'r Clwb dylid cysylltu â:

Cylch Meithrin y Garnedd (07796 017771)
Clwb y Garnedd (07933 936777)

Darperir pecyn gwybodaeth i rieni newydd i'w galluogi i ymgyswngi â threfn yr ysgol, a chroesewir unrhyw sylwadau a fydd yn fodd o wella cynnwys y pecyn hwnnw.

*Yn ddibynnol ar niferoedd y disgyblion

DIWRNOD YSGOL

Cyrraedd yr ysgol yn y boreau.

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am blant sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.30 yn y bore. Yn wir, nid yw'r Corff Llywodraethol yn cymeradwyo i unrhyw blentyn fod ar dir yr ysgol cyn hynny. Os bydd angen, mae Clwb y Garnedd yn cynnig gwasanaeth o 7.30 o'r gloch ymlaen.

Mae trefn bwrpasol wedi'i mabwysiadu gan y Llywodraethwyr sy'n lleihau trafndiaeth ac sy'n sicrhau gwell diogelwch yn y boreau y tu allan i giât yr ysgol. Bydd aelod o staff yr ysgol yn gwyllo'r plant yn dod o geir a rhai eraill ar yr iard efo'r plant.

Er diogelwch, ni ddylai'r plant groesi maes parcio'r staff (tu ôl i Kingdom Hall) ar unrhyw gyfrif i gael mynediad i'r ysgol.

Parcio/maes parcio'r staff

Yn y boreau, bydd rhieni yn gallu defnyddio'r rhodfa dacsï i ollwng eu plant (ar y chwith wrth fynd i lawr at yr ysgol). Bydd rhieni'n gallu gadael yn syth wedyn rhag creu tagfa draffig. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i rieni'r plant lleiaf wneud hynny, hyd nes y byddant yn ddigon hyderus. Nid oes modd parcio yn y rhodfa dacsï, felly dylid parcio ym maes parcio'r ysgol sydd gyferbyn â'r rhodfa dacsï.

Yn anffodus, mae'r llefydd parcio'n brin a gofynnwn yn garedig i rieni gymryd gofal wrth barcio. Yn y prynhawniau mae hi waethaf. Peidiwch â pharcio wrth y mannau sydd â llinellau melyn na phob ochr i'r groesfan yn y gwaelod, gan bod hyn yn peryglu diogelwch y plant.

Mae gan y staff eu maes parcio eu hunain tu ôl i'r Addoldy Tystion Jehofa. Nid oes hawl gan y rhieni i ddefnyddio hwnnw, nac ychwaith i gael mynediad i'r ysgol trwyddo.

Gofynnwn yn garedig i rieni'r Meithrin yn unig i barcio'u ceir yn y maes parcio. Rydym yn annog pob plentyn yn sensitif i ffarwelio â'i riant wrth y giât. Ddim yn siŵr am y sensitif ond mater o farn!

Goruchwylio'r plant cyn i'r gloch ganu yn y bore

Bydd staff yr ysgol ar yr iard o 8.30 y bore ymlaen i oruchwylio'r plant. Ar ganiad y gloch 8.50, bydd y plant yn ffurfio rhesi'n barod i gerdded yn drefnus i'r dosbarthiadau. Os yw'r tywydd yn anffafriol bydd y plant lleiaf (Meithrin i BI 2) yn ymgynnull yn y neuadd ac yn eistedd ar lawr y neuadd i ddisgwyl i'r gloch ganu, a'r Adran Iau yn mynd i'w dosbarthiadau.

Bydd plant Meithrin y bore yn treulio sesiwn o ddwy awr a 10 munud, a phlant Meithrin y pŵn yn treulio 2 awr yn yr Uned dan 5.

Mae'r sesiynau dyddiol fel a ganlyn:

Sesiwn y bore:	Meithrin	8.50 - 11.00
	Cyfnod Sylfaen	8.50 – 11.50
	Iau	8.50 – 12.00
Sesiwn y prynhawn:	Meithrin	12.50 - 14.50
	Cyfnod Sylfaen	12.50 - 14.50
	Iau	13.00 - 15.30

(I'r rhai sydd â brawd/chwaer hŷn yn yr ysgol) Clwb Deugain Munud 14.50 – 15.30
(codir tâl)

Bydd amser chwarae (chwarter awr) yn ystod y bore a'r prynhawn yn ogystal â'r awr ginio.

Cinio/Pecyn Bwyd

O'r dosbarth Derbyn ymlaen bydd cyfle i blant gael cinio ysgol neu ddod â phecyn bwyd eu hunain. Mae dewis ar y fwydlen ac anfonir i chwi gopi o'r fwydlen honno ichi o dro i dro.

Bydd y plant lleiaf yn mynd i'r neuadd gyntaf i gael cinio neu becyn bwyd, yna plant yr Adran Iau. Rydym yn annog pawb i ddod â phecyn bwyd iach i'r ysgol. Telir am ginio'n wythnosol - sic yn daladwy i Gyngor Gwynedd, neu dalu ar-lein trwy

www.schoolgateway.com

Byrbrydau Amser Egwyl

Ffrwythau yn unig a ganiateir yn ystod amser egwyl i'r Adran Iau. Mae'r plant y Cyfnod Sylfaen yn cael cyfle i fwyta ffrwyth yn y 'caffi'.

Llefrith

Bydd plant o flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 2 yn derbyn llefrith yn ddyddiol, yn rhad ac am ddim.

Mae modd i blant yr Adran Iau gael llefrith. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddynt hwy dalu amdano yn dymhorol.

Dŵr

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd yfed digon o ddŵr yn ystod y dydd. Anogir y plant i ddod â photel fach blastig o ddŵr heb flas i'r ysgol yn ddyddiol. Yn ogystal byddwn yn eu hannog i'w hail-lenwi o'r tapiau dŵr pwrpasol sydd yn y dosbarthiadau.

Amser Egwyl

Mae strwythur arbennig i amser chwarae gyda bocsus offer wedi eu prynu gan y Cyngor Ysgol er mwyn hybu cyd-chwarae a datblygiad cymdeithasol. Mae athrawes a chymhorthydd ar ddyletswydd sydd yn ateb gofynion gofal y Sir.

Parc Antur / Offer Cadw'n Heini a Ffrâm Ddringo

Ar fuarth yr ysgol mae'r Cyngor Ysgol wedi sicrhau bod Parc Antur sy'n addas i bob oedran. Mae amserlen i sicrhau bod pob dosbarth yn eu tro yn cael ei ddefnyddio. Credwn mewn bod yn gorfforol brysur ac mae hyn yn gwella cyflawniad yn yr ystafell ddosbarth.

Ar fuarth yr Adran Iau mae offer cadwi'n heini a ffrâm ddringo. Mae amserlen i sicrhau bod pob dosbarth yn eu tro yn cael eu defnyddio.

Y Gorlan

Dyma lecyn ar y buarth ble cawn fynd fesul dosbarth i wrando ar storïau, i gynnal gwasanaethau ac i gael Amser Cylch. Credwn ei bod hi'n hanfodol i blant dreulio amser yn yr awyr agored. Credwn fod treulio amser yn y 'gorlan' yn magu agwedd iach at yr ysgol, ac at eu gwaith a bod dysgu tu allan i'r dosbarth yn rhoi rhyw ogwydd braf at ddysgu.

Casglu plant am 2.50pm a 3.30pm

Disgwylir i rieni, a phawb sy'n dod i gasglu'r plant am ddeg munud i dri, aros tu allan i giât yr ysgol, hyd nes i'r gloch ganu. Adeg hynny, bydd modd i chwi fynd i gasglu'ch plentyn.

Am hanner awr wedi tri, yr un yw'r drefn sef, bod y rhieni'n aros tu allan i'r giât; a bydd y plant yn cael eu hebrwng at y giât gan yr athrawon.

Ni fyddwn yn rhyddhau plentyn o'n gofal oni bai bod yr oedolyn priodol yno'n sefyll wrth y giât. Os yw plentyn yn cerdded adref ei hunan, disgwylir i rieni nodi hynny trwy lythyr. Gwerthfawrogwn y bydd rhiant, ar brydiau yn cyrraedd yn hwyr, ond ni ddylid gwneud hynny'n arferiad. – fyddwn i'n argymhell gadael hwn allan.

Gadael Libart yr Ysgol

Ni chaiff unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol heb ganiatâd swyddogol. Dylai rhieni wneud cais am ganiatâd o'r fath mewn llythyr i'r Pennaeth.

BWS YSGOL AG AMSEROEDD

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Addysg yn trefnu bws o ardal Talybont sy'n galw ym Maesgeirchen, ardal Hirael ac ymlaen ar hyd Ffordd Deiniol a Ffordd Ffriddoedd.

Codir tâl ar bob plentyn sy'n byw o fewn milltir a hanner i'r ysgol. Telir yr arian Awdurdod Addysg ac nid i'r ysgol.

Bydd y bws yn gadael Tal-y-bont am 8.10 y bore ac yn cyrraedd yr ysgol am 8.40. Yn y prynhawn bydd y bws yn cludo plant adref am 3.40.

Os bydd unrhyw newid yn nhrefniadau teithio eich plentyn ar y bws ysgol gofynnir i'r rhieni roi gwybod drwy lythyr i'r athro dosbarth.

Bore

- 8.10 Talybont
- 8.20 Maesgeirchen
- 8.25 Gerddi Penlon
Meddygfa Glanfa
- 8.30 Hen safle Ysgol Friars
Siop Vardre, Ffordd Ffriddoedd
- 8.35 Allt Belmont

Mae ffurflen ar gael yn yr ysgol petaech yn dymuno gwneud cais am gludiant i'ch plentyn.

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol ac mae disgwyl i blant ei gwisgo. Credwn bod gwisgo wisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Mae'n hollol hanfodol bod enw'r plentyn ar bob dilledyn. Mae modd prynu dillad yn y siopau a enwir.

Siwmpwr/ Cardigan:	Glas tywyll gyda logo'r ysgol
Crys Polo:	Glas golau gyda logo'r ysgol
Trowsus/Trowsus jogio/	Glas tywyll/du
Leggings/Sgert/Pinafore:	Glas tywyll/du
Ffrog Gingham:	Glas a gwyn

Siorts:

Glas tywyll/du

Esgidiau:

Esgidiau tywyll addas

Hysbysir chi ar ba ddyddiau y mae'r plentyn yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Ar gyfer y gwersi bydd angen crys T gwyn a throwsus cwta tywyll. Fel arfer, bydd plant yn gwneud gwersi dawns a gymnasteg yn y neuadd yn droednoeth, ond gofynnir i chi hefyd sicrhau bod ganddynt 'bymps' neu 'trainers' i'w gwisgo ar gyfer gemau. Pan fyddwch yn prynu'r rheini, byddai'n gymorth pe byddai Velcro neu lastig yn eu cau. Mae'n rhaid i blant dynnu clustlysau wrth wneud ymarfer corff: yn gyffredinol, ni chaniateir i blant wisgo clustlysau yn yr ysgol, ond os yw plentyn wedi tyllu ei glust, dim ond 'studs' neu 'sleepers' a ganiateir.

Mae gan yr ysgol gyflenwyr gwisg swyddogol sef :

KRYPTON KLOTH, 259–263a Stryd Fawr, Bangor (01248 372297).

TESCO - <https://www.tesco.com/direct/ues>

ABSENOLDEBAU/PRESENOLDEB

Mae hi bellach yn hanfodol yn ôl gofynion y Ddeddf Addysg eich bod yn ein hysbysu trwy nodyn o'r rheswm am unrhyw absenoldeb gan gynnwys ymweliadau â'r meddyg neu'r deintydd.

Pan fo plentyn yn absennol dylid cysylltu â'r ysgol trwy alwad ffôn ac yna (wrth iddo/iddi ddychwelyd) anfon nodyn gyda'r plentyn yn nodi'r rheswm. Rydym yn gweithredu system gswllt diwrnod cyntaf lle cysylltir â rhieni os nad ydym wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn ag absenoldeb.

Mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu'r Awdurdod Lleol os yw disgybl yn colli'r ysgol yn rheolaidd.

Byddwn yn cofrestru am 8.55a.m. (gan y cymer rhyw bum munud i ddod o'r rhesi ac eistedd i lawr). Os na fydd y plentyn yn bresennol erbyn naw bydd yn cael ei nodi fel hwyr, neu'n absennol wrth gwrs. Cedwir cofnod o'r presenoldebau'n electronaidd. Ar ddiwedd pob tymor os bydd canran uchel o 'nifer o weithiau'n hwyr' gan blentyn byddwn yn cysylltu â'r rhieni, gan nad yw sefyllfa o'r fath yn dderbyniol.

Gofynnwn yn garedig i rieni beidio tynnu eu plant o'r ysgol yn ystod y tymor i fynd ar wyliau os oes unrhyw fodd o osgoi hyn. Os ydych yn gorfod cymryd eich gwyliau yn ystod y tymor dylech ofyn caniatâd trwy lythyr ymlaen llaw. Yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn cymeradwyo cymryd gwyliau yn ystod tymor ysgol.

.Presenoldeb 2017/2018

Presenoldeb	95.1%
Absennol gydag Awdurdod	4.7%
Absennol di Awdurdod	0.2%

Targed Presenoldeb ar gyfer 2018/19 yw 95.5%

CYNNAL YMDDYGIAD DA A DISGYBLAETH

Disgwylir i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy gadw at reolau ymddygiad yr ysgol sef:

- i) dangos parch at bawb a phopeth.
- ii) bod yn barod a chyfrifol.
- iii) cadw'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da oherwydd bydd hyn yn hyrwyddo ethos o barch, hapusrwydd, diogelwch a chydweithrediad. Mae'r drefn disgyblu yn seiliedig ar bolisi o ganmol a chlodfori'r ymddygiad a ddymunir. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion cynnal ymddygiad da o gynllun **Webster Stratton**. Gwneir hyn trwy ganmol. Bydd unrhyw gosb a weinyddir yn rhesymol a chymedrol yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg.

Mae gan yr ysgol bolisi ymddygiad a disgyblaeth ac mae copi ohono ar gael yn yr ysgol. Mae'r drefn disgyblaeth yn seiliedig ar bolisi ble mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun, ond os oes angen, gellir cyfeirio disgybl i sylw'r Dirprwy neu'r Pennaeth.

Pan fo plentyn yn parhau i gamymddwyn, gan amharu ar rediad naturiol yr ysgol, rydym yn ystyried ac yn gweithredu'r gosb eithaf o wahardd plentyn, yn ôl canllawiau'r Awdurdod Addysg Lleol.

DIOGELWCH

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau lechyd a Diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol a bydd disgwyl iddynt gofnodi i mewn ac allan o'r adeilad a gwisgo bathodyn adnabod. Mae gan yr ysgol system larwm lladron a chamerau cylch cyfyng, a cheir ymarferiadau tân yn dymhorol.

TYWYDD GARW

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Bydd yr ysgol yn eich hysbysu drwy wefan y cyngor a Gwefan yr Ysgol - www.ysgolygarnedd.org.uk - a neges destun drwy ffôn symudol. Gofynnir yn garedig ichi beidio â ffonio'r ysgol i holi am wybodaeth pan fo tywydd garw.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Ein nod a'n hamcan yw cyflwyno addysg gyflawn i bob disgybl. Ni wahaniaethir ar sail rhyw, hil, diwylliant, dosbarth, iaith, anabledd corfforol na gallu addysgol. Ein hamcan yw i ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni geisio'u gorau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob un yn yr ysgol. Mae copi o bolisi cyfle cyfartal yr ysgol ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei weld.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol: Mrs Sioned Roscoe-Roberts

Ein nod yn yr ysgol yw gwneud ein gorau i sicrhau tegwch addysgol a chymdeithasol i bob plentyn ar draws yr ystod gallu. Ymdrechwn at ofalu bod pob unigolyn yn cael y cyfle gorau i weithio hyd at eithaf ei allu a hynny trwy waith ysgrifenedig neu ymarferol mewn cyd-destun dwyieithog.

Weithiau byddwn yn teimlo y byddai o fantais i blentyn dderbyn sylw ychwanegol i oresgyn problemau penodol. Gall hyn fod yn drefniant tymor hir neu dros dro. Byddwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sylfaenol fel rheol megis darllen, ysgrifennu, sillafu a mathemateg, gyda'r plentyn yn cael cymorth (gan amlaf mewn grŵp bychan) gan aelod o staff ar ôl trafodaeth gyda'r rhieni. Os oes angen, gellir dwyn i mewn asiantaethau eraill megis y Seicolegydd Addysg, defnyddio Unedau Dalgylchol yn rhan-amser a.y.y.b. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl yr adnoddau cyllidol a ddyrennir ar eu cyfer yn flynyddol.

Weithiau gosodir plentyn ag anghenion dwys ar Ddatganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar ôl trafod gyda'r rhieni. Cyllidir ar gyfer plant sydd ar Ddatganiad / CDU yn unol â'r ddarpariaethau a nodir yn y Datganiad / CDU. Yr Awdurdod Addysg Leol fydd yn ariannu'r ddarpariaeth ychwanegol angenrheidiol. Caiff gwaith plant Mwy Abl a Thalentog ei gynllunio'n ofalus i'w hystyng.

Crynodeb o'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Ein nod yw cynnig cyfle teg i bob plentyn gael datblygu yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn addysgol i gael manteisio ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Canllawiau:

- 1) Cyflawni gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- 2) Defnyddio Meini Prawf Mynediad Gwynedd i gynllunio'r ddarpariaeth orau posibl.
- 3) Dilyn trefn o Gyfnodau 'Gweithredu gan yr Ysgol', 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' a Datganiad / CDU. Bydd y Cydgysylltydd yn cysylltu ag arbenigwr o'r tu allan fel bo'r angen. Bydd gan bob plentyn sydd ar un o'r cyfnodau hyn Gynllun Addysg Unigol (CAU).
- 4) Sicrhau cynnwys y rhieni a'r disgyblion yn y trefniadau asesu ac adolygu anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y CAU.
- 5) Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i geisio sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol.
- 6) Gall rhieni sydd â chŵyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:
 - a) Cydlynnydd ADY;
 - b) Pennaeth;
 - c) Cynrychiolwyr y rhieni ar y Corff Llywodraethu / Llywodraethwr penodedig ADY.

Casgliad:

Sicrhau bod trefniant clir o fewn yr ysgol er lles yr holl blant yn ein gofal, i ni geisio arfogi'r plant gyda'r un sgiliau a phrofiadau angenrheidiol i'w galluogi i gyfrannu i fywyd llawn yr ysgol a'r gymdeithas, heb wneud iddynt deimlo'n israddol neu'n wahanol.

DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â "nam corfforol neu feddygol a gaiff effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd"

Mae rampiau yn hwyluso mynediad i'r Uned dan 5, y neuadd a'r Adran Iau.

Bydd Llywodraethwyr yr ysgol yn trafod anghenion mynediad pellach, gyda'r Awdurdod Addysg.

Y CWRICWLWM

AMCANION CYFFREDINOL.

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yng nghydestun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â chymhwysedd digidol.
3. Creu yr awydd ym mhob plentyn i chwilio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu empathi, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden yn y plentyn.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau, a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig, sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyflwynir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

Fe lunir Polisiâu a Chynlluniau Gwaith ar gyfer yr amrywiol bynciau gan yr ysgol mewn partneriaeth â'r Llywodraethwyr, ac mae modd gwneud trefniadau gyda'r Pennaeth i weld y dogfennau hynny yn yr ysgol.

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, diwylliannol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig.

Y Cyfnod Sylfaen

Dilynir chwe maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda'r disgyblion rhwng 3 a 7 oed.

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol;
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Datblygiad Mathemategol;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol.

Yn ogystal â'r Fframwaith Rhifedd, Llythrennedd a Chymhwysedd Digidol.

Cyfnod Allweddol 2

Dilynir Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 gyda disgyblion 7 – 11 oed.

- Pynciau Craidd – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth;
- Pynciau Sylfaen - Hanes, Daeryddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerdd, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol.
- Fframwaith Rhifedd, Llythrennedd a Chymhwysedd Digidol.

Yn yr ail gyfnod allweddol dilynir gofynion y Fframwaith ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol ac Addysg Gynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Ar y cyfan, cyflwynir y Cwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd Cymhwysedd Digidol yn draws gwricwlaidd.

Yn dymhorol, bydd y plant yn ymweld â llefydd sydd o werth addysgol ac yn cyd-fynd â'r thema gyfredol, llefydd megis Pili Palas, Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Llanystumdwy, Gelli Gyffwrdd, Cadeirlan Bangor a thraeth Dinas Dinlle. Byddwn hefyd yn gwahodd unigolion i'r ysgol i ddyfnhau profiadau'r plant.

Mae disgyblion blwyddyn 5 yn mynd am benwythnos antur i Lan Llyn. Mae blwyddyn 6 yn mynd am ychydig o ddyddiau i Gaerdydd er mwyn ymweld â'r Senedd, Canolfan y Principality ac ati.

Amcanion ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd

1. Gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu sgiliau llythrennedd a Rhifedd ar draws y cwricwlwm.
2. Dilyn Cynlluniau Llythrennedd a Rhifedd yr ysgol yn seiliedig ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
3. Nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau Llythrennedd a Rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn y cynlluniau.
4. Datblygu Portffolio Llythrennedd a Rhifedd yn cynnwys samplau o waith ar lefelau gwahanol.
5. Hysbysu rhieni yn dymhorol o dargedau personol eu plant mewn llythrennedd a rhifedd.
6. Sicrhau fod y gwaith wedi ei baratoi yn wahaniaethol i ymestyn pob plentyn.
7. Targedu agweddau o lythrennedd a rhifedd fel Blaenoriaethau Datblygu Ysgol yn flynyddol.

ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrrff Llywodraethol ysgolion ystyried a ddylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth.

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn mai cyfrifoldeb rhieni ac athrawon ar y cyd yw dysgu addysg rhyw, ac o'r angen am ddealltwriaeth lawn o rôl pob un sydd ynghlwm wrth y gwaith.

Mae Llywodraethwyr yr ysgol hon wedi penderfynu bod addysg rhyw yn cael ei ddysgu fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Gwneir hynny fel rhan o bolisi Addysg Personol a Chymdeithasol cynhwysfawr sy'n delio â llawer o faterion yn ymwneud â datblygiad yr unigolyn.

Defnyddir dogfennau'r Awdurdod Hybu Iechyd ac Ysgolion Iach Gwynedd yn ganllaw i'r dysgu ac ymgorfforir yr elfennau perthnasol yn aml yng ngweithgareddau arferol y dosbarth.

Bydd aeddfedrwydd ac anghenion pob disgybl yn cael eu hystyried wrth ymdrin ag addysg rhyw.

Bydd gwersi penodol yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 fel rhan o thema'r Corff.

Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plentyn allan o wersi Addysg Rhyw a'u cyfrifoldeb hwy yw rhoi gwybod i'r Pennaeth am hynny.

ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI

Cyflwynir Addysg Grefyddol yn unol â Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Addysg Leol. Ceisia Addysg Grefyddol yn yr ysgol wneud plant yn ymwybodol o'r cefndir crefyddol i safonau derbyniol ymddygiad a moesoldeb yn y wlad hon. Mae dod yn ymwybodol o wahanol grefyddau sydd yn eu hamgylchfyd aml-ddiwylliannol yn agwedd bwysig o'r dysgu.

Cynhelir gwasanaethau dyddiol yn unol â gofynion Deddf Addysg 2002. Fel rheol, mae'r cynlluniau yn dilyn patrwm Cristnogol yn sylfaenol, ond maent hefyd yn achlysur i ddsbarth neu'r ysgol gyfan fod yn ymwybodol ohonynt eu hunain fel cymuned. Ni cheir unrhyw ymgais i drwytho disgyblion â chredoau penodol, er bod cyfleoedd i arsylwi ymarfer Cristnogaeth - ac yn achlysurol, gredoau eraill. Mae'r achlysuron hyn yn bwysig os ydyw disgyblion am deimlo eu bod yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol a'r gobaiith yw y gallant oll fod yn bresennol yn ein gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y caniateir o dan y Ddeddf Addysg, gall y rhieni hynny sy'n gwrthwynebu i'w plant gymryd rhan yn y gwasanaethau neu i dderbyn Addysg Grefyddol drefnu gyda'r Pennaeth iddynt gael eu hesgusodi rhag cymryd rhan ynddynt.

ADDYSG GORFFOROL

Ein nod yw: datblygu cryfder, rheolaeth ac esthetrwydd y plant trwy eu cael i fod yn gorfforol weithgar. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i weithio'n annibynnol a chydweithio ag eraill ac i lunio a rheoli gemau eu hunain.

Amcanion:

1. Datblygu sgiliau symudol.
2. Cynnal a chynyddu symudiadau a hyblygrwydd corfforol.
3. Datblygu stamina a chryfder - yn enwedig cyhyrau'r galon a'r esgyrn.
4. Datblygu'r gallu i gyfleu syniadau trwy osgo'r corff.
5. Gwerthfawrogi'r syniad 'chwarae'n deg' wrth gystadlu a meithrin agwedd iach tuag at ennill a cholli.
6. Datblygu'r gallu i werthfawrogi nodweddion esthetig symudiadau.
7. Datblygu awydd a gwerth dyfalbarhad i geisio llwyddiant.
8. Datblygu hunanhyder wrth ddeall cryfderau/gwendidau personol a rhai plant

eraill.

9. Datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymarfer y corff er mwyn byw bywyd iach.

Mae gan yr ysgol neuadd ar gyfer chwaraeon dan do a chae chwarae ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Defnyddir pwll nofio'r ddinas ar gyfer gwersi nofio i blant Blwyddyn 3–6 a Blwyddyn 2 yn nhymor yr Haf. Byddwn yn sicrhau tymor o wersi, ac efallai dau dymor phan fydd y gyllideb yn caniatáu.

Darperir amrediad eang o chwaraeon yn yr ysgol gan gynnwys gymnasteg, dawns, athletau, tenis, nofio, pêl-droed, rygbi, criced, rownderi a phêl-rwyd. Bydd cyfle i blant gymryd rhan mewn cystadlaethau rhwng ysgolion Bangor/Ogwen ac efo'r Urdd.

Ar gyfer y gwersi eu hunain, disgwylir i blentyn wisgo crys T gwyn a siorts du neu las tywyll. Byddant yn droednoeth yn gwneud gymnasteg a dawns yn y neuadd.

Disgwylir i'r plant ddod â'u dillad mewn bag bychan (e.e. 'pump bag' gan fod cyn lleied o le yn yr ystafelloedd cotiau) ar fore Llun a'i gasglu ar brynhawn Gwener. Anogir y plant Cyfnod Sylfaen i adael eu bag yn yr ysgol am yr hanner tymor a'i ddychwelyd ar ôl gwyliau. O safbwynt cael *trainers* ar gyfer gweithgaredd, byddwn yn anfon amserlen y sesiynau atoch fel eich bod yn gwybod pa ddiwrnod y dylai'r plant eu cario neu eu gwisgo - rhag ofn y bydd y sesiynau yn cael eu cynnal allan ar yr iard.

Ceir mwy o fanylion am chwaraeon yn yr adran am Glybiau Ar ôl Ysgol.

GWERSI OFFERYNNOL

Bydd cyfle i blant o Flwyddyn 4–6 gael gwersi offerynnol gan athrawon peripatetig a chodir tâl tymhorol. Ar hyn o bryd y dewis sydd ar gael yw telyn, soddgrwth, ffidil, drymiau, chwythbrennau, pres a gitâr. Darperir y gwersi gan Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn.

GWERSI DRAMA

Nadolig	Gwersi Bl 5 a 6 (cyfle i gyflwyno gwersi i bl 3 a 4)	
Hanner Tymor		
Nadolig	Ymarferion Sioe Nadolig (pawb)	
Pasg	Gwersi 3 a 4 ½ awr	Ymarfer y Gân Actol 1 awr pan yn amserol
Haf	Ymarfer y Cyflwyniad Dramatig (a'r Gân Actol) os yn berthnasol	
Hanner Tymor Sulgwyn		

Mae'r cyfnodau ar brynhawniau Llun yn ymwneud â chyflwyno profiadau dramatig i blant sydd â chysylltiad â'r thema gyfredol yn ogystal â pharatoi ar gyfer perfformiadau/cystadlaethau.

Mae'r sesiynau'n magu hyder, meithrin iaith, datblygu mynegiant, cyd-weithio, hunanddisgyblaeth, dysgu ar y cof a mwynhad.

Byddwn yn cynnal clyweliadau ar gyfer criw'r gân actol (aelodau'r Urdd yn unig). Gweler trefn Dewis Timau.

Mae disgwyl i blant ddod â chrys T a throwsus loncian neu siorts ar gyfer y gwersi drama.

CYNGOR YSGOL

Mae gennym Gyngor Ysgol sy'n cyfarfod yn dymhorol. Etholir bachgen a merch gan y plant eu hunain (Blwyddyn 1–6) i gynrychioli eu dosbarth ar y Cyngor. Byddant yn lleisio barn eu cyfoedion, fel bod gan bawb fewnbwn i fywyd yr ysgol a phersbectif plentyn yn cael ei fynegi. Etholir cynrychiolwyr dosbarth.

GRŴP ECO GWYRDD

Mae gennym Grŵp Eco Gwyrdd (Blwyddyn 6) sydd yn sicrhau bod egwyddorion bod yn ysgol werdd yn treiddio i fywyd a gwaith yr ysgol. Etholir y plant gan eu cyfoedion. Llwyddwyd i gadw'r Wobr Efydd Eco Ysgolion eleni.

Dan arweiniad y Cyngor Ysgol a'r Grŵp Eco Gwyrdd llwyddwyd i dderbyn y wobr Ansawdd Ysgolion Iach Gwynedd. Mae annog y plant i fyw yn iach a chael meddwl iach yn rhan annatod o fywyd yr ysgol.

GWAITH CARTREF

Rhoddir gwaith cartref i'r plant yn unol â Pholisi Gwaith Cartref yr ysgol. Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell dro, bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro fe all athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny y gobaith fyddai cael cydweithrediad llwyr gan y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

Ar ddechrau ei gyfnod yn yr ysgol bydd y plentyn yn cael lloches, am ddim, i gario'i lythyrau/llyfrau/waith yn ôl ac ymlaen o'r cartref i'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen ni osodir gwaith cartref yn swyddogol. Fodd bynnag, yn wythnosol, anfonir llythyr gartref yn sôn am y mathau o weithgareddau mae'r plentyn wedi bod yn ei wneud yn ystod yr wythnos flaenorol gan gynnig syniadau fel eich bod yn gallu cefnogi yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Darllen

Bydd pob plentyn o'r Derbyn i BI 6 yn dod â llyfr adref yn rheolaidd. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i hybu darllen yn gyffredinol er budd eich plant. A fydddech cystal â sicrhau fod eich plant yn dychwelyd y llyfrau a ddarllenwyd yn wythnosol ynghyd â'r llyfr cofnod darllen (os yn berthnasol). Gofynnir i chi roi sylwadau yn y llyfr a'i lofnodi.

CLYBIAU AR ÔL YSGOL

Mae'r ysgol yn darparu sawl gweithgaredd ar ôl hanner awr wedi tri, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chwaraeon. Ymfalchïwn yn fawr yn hyn fel ysgol. Mae hefyd Glwb Celf a Chlwb Coginio. Cyflwynir sesiynau pêl-rwyd, gymnasteg, rygbi, criced a phêl-droed. Anfonir rhaglen at rieni ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn nodi'r gweithgareddau a'r dyddiadau. Petai'r hyfforddwr yn methu â bod yn bresennol, hysbysir y plant cyn gynted â phosib. Petai'r tywydd yn troi'n anffafriol yn ystod y prynhawn (yn achos gweithgareddau ar y cae) bydd yr ysgol yn hysbysu'r rhieni drwy alwad ffôn neu neges destun.

CLWB DEUGAIN MUNUD

Mae'r Clwb y Garnedd yn paratoi'r gwasanaeth uchod fel bod modd i blentyn Cyfnod Sylfaen aros yn yr ysgol tan 3.30 nes bydd brawd neu chwaer hŷn yn gorffen. Nid yw'n Glwb sy'n gwneud elw, dim ond digon i dalu cyflog y rhai sy'n gofalu am y plant.

Mae'n hanfodol eich bod yn casglu'ch plentyn erbyn 3.30.

YR URDD

Mae'r Urdd yn flaenllaw ym mywyd yr ysgol, bydd gweithgareddau i blant o Flwyddyn 1 - 6, yn ystod tymor y Nadolig, fel arfer ar nosweithiau lau. Anfonir rhaglen i rieni ar ddechrau mis Medi. Bydd cyfle i blant blwyddyn 5 a 6 fynychu gwersylloedd Glan Llyn yn nhymer yr haf.

Byddwn yn cystadlu'n flynyddol yn yr Eisteddfodau, ar amrediad o gystadlaethau e.e. cân actol, cyflwyniad dramatig, dawnsio disgo, canu, llefaru a'r testunau cartref fel celf a chrefft, llenyddiaeth a barddoniaeth.

Cymerir rhan mewn cystadlaethau chwaraeon megis pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gala nofio a mabolgampau Cylch Bangor/Ogwen ac Eryri.

CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Cynhwysir copi o gytundeb cartref/ysgol sy'n cael ei arwyddo gan rieni ar gychwyn cyfnod y plentyn yn y Garnedd.

BWLIO

Mae gan yr ysgol bolisi pendant ar fwlio, a byddwn yn cymryd pob cam posibl i'w atal. Mae "bod yn garedig a chwrtais efo pawb" yn agwedd sy'n rhan allweddol o ethos yr

ysgol hon. Ni all unrhyw ysgol hawlio nad yw bwlio'n digwydd, ond y modd y mae'r ysgol yn ymateb i'r broblem sy'n bwysig. Yn yr ysgol hon byddwn yn pwysleisio wrth y plant yr angen i ddweud wrth ffrind neu athro os yw'n cael ei fwlio. Mae'n hanfodol hefyd fod rhiant yn ffonio neu'n cysylltu â'r ysgol os yw achos o fwlio'n codi.

Bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn delio â'r sefyllfa'n sensitif. Ar adegau, wrth gwrs, mae dwy ochr i'r geiniog, a cheisio canfod y gwir yw'r sialens i'r staff. Petai'r bwlio'n parhau hysbysir y Pennaeth. Amserlennir amser Cylch i drafod unrhyw bryderon ac mae yna amlen neu focs ym mhob Uned sef 'Mae gen i rywbeth i ddweud' fel bod plant yn cael sawl cyfle i ddweud beth sydd yn eu poeni a hynny mewn modd sensitif.

TYNNU LLUNIAU

O dro i dro byddwn yn tynnu lluniau'r plant at wahanol ddibenion, er enghraifft, ar ymweliad addysgol, fel aelod o dîm neu grŵp, ar gyfer y papur bro, gwefan yr ysgol, perfformiadau'r Nadolig, ac yn y blaen. Pe na bai rhiant am i lun o'i blentyn gael ei dynnu, dylai hysbysu'r ysgol trwy lythyr. Rydym wedi derbyn cyfarwyddyd gan yr awdurdod i nodi hyn. Mewn cyfarfodydd fel y rhai yng Nghapel Berea Newydd a neuadd yr ysgol (adeg y Nadolig) dim ond y person a gyflogir gan yr ysgol i greu fideo i gofio'r achlysur fydd â hawl i dynnu llun a bydd cyfle i rieni brynu copi am bris rhesymol.

AMDDIFFYN PLANT

Gwnawn ein gorau i amddiffyn hawliau a lles plant. Dilynwn ganllawiau'r Sir ynglŷn ag amddiffyn plant. Mae pob aelod o staff wedi cael tystysgrif Educare. Mae DBS pob aelod o staff yn gyfredol.

PRYDERU AM BLENTYN

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn yr ysgol yw – **Mr Llion Williams**

Cydgysylltydd o blith uwch dîm rheoli'r ysgol - **Mrs Ann Gash**

Llywodraethwr – **Dr Catrin Elis Williams**

Person Cyfrifol Amddiffyn Plant: **Delyth Lloyd Griffith**

Drwy'r Tîm Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol.

01758704455 (9:00-17:00, *Llun-Gwener*)

Ffôn tu allan i oriau: **01248 353551** (*unrhyw amser arall ac ar Wyl y Banc*)

E-bost: **cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk**

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt Llywodraethwyr / yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater gyda chyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Gall cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod y materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw'r Cyd-gysylltydd Diogelu Plant.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaeth gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam hwn wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

TRIP ADDYSGOL

Credwn yn gryf y dylid cyflwyno profiadau cyfoethog i'r plant; ac un ffordd o wneud hynny yw ymweld â llefydd o werth addysgol. Bydd yr ymweliad yn esgor ar doreth o weithgareddau diddorol wedi dychwelyd i'r ysgol. Wrth gwrs wynebwn gostau cynyddol yn enwedig pris y bysiau ac weithiau tâl mynediad. Ar adegau, bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn ysgwyddo peth o'r costau.

Byddwn yn ymweld â llefydd megis:

Parc Glynllifon
Pili Palas
Gelli Gyffwrdd
B&Q
Canolfan Ailgylchu
Amgueddfa Lechi, Llanberis
Amgueddfa Lloyd George
Cwm Idwal
Sŵ Môr
Traeth Rhosneigr
Stryd Fawr a Chadeirlan Bangor
Melin Llynnon a Swtan
Parc y Faenol
Glan Llyn
Caerdydd

TRIP YSGOL

Byddwn yn trefnu trip yr ysgol pob diwedd tymor yr haf. Ceisiwn ymweld â llefydd sydd yn rhoi mwynhad i'r plant.

Ni fydd dosbarth Meithrin yn mynd ar drip ysgol. Fel rheol bydd y Cylch Meithrin yn trefnu trip.

TALIADAU

Penderfyniad y Corff Llywodraethol yw codi tâl yn llawn am yr eitemau canlynol:

- Cost llety ac ymborth am weithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r Awdurdod. Os yw rhieni yn ei chael hi'n anodd talu costau, ystyrir eu cynorthwyo.
- Yr holl weithgareddau a drefnir y tu allan i oriau ysgol.
- Difrod i lyfrau, adnoddau neu eiddo arall yn perthyn i'r ysgol, yn deillio o gamymddwyn gan ddisgybl neu ddisgyblion.
- Deunydd crai ar gyfer gwaith unigol o fewn y Cwricwlwm, e.e. crefft pan yw rhieni wedi mynegi diddordeb mewn cadw'r cynnyrch gorffenedig.
- Adnoddau ysgol sy'n cael eu colli gan ddisgybl, e.e. llyfr darllen fel rhan o raglen ddarllen yr ysgol.

Cefnoga'r Llywodraethwyr yr egwyddor na ddylid gwahardd unrhyw blentyn rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd oherwydd anallu neu amharodrwydd rhiant i gyfrannu tuag at y costau. Maent hefyd yn cydnabod y bydd angen cyfarfod â chost y gweithgareddau hyn o'r tu allan i gyllid blynyddol yr ysgol.

Y mae gan y Corff Llywodraethwyr yr hawl i ofyn am gyfraniadau gwirfoddol tuag at gostau'r uchod ynghyd â gweithgareddau cyffelyb megis gwersi offerynnol, drama, ymweliadau addysgol, a chludiant bws i wersi nofio. Os na ellir cynnal gweithgaredd heb gyfraniadau gwirfoddol, yna fe wneir hyn yn eglur i rieni ar y cychwyn. Bydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu hawl i ddileu gweithgaredd a drefnwyd os ymddengys y gallai cyfraniadau isel olygu colled sylweddol.

RHESTR PRISIAU

Cinio Ysgol	£2.50 y dydd £12.50 yr wythnos	Talu'n wythnosol ar www.schoolgateway.com
Clwb 40 Munud	£1.00 y dydd	Talu'n wythnosol i'r Ysgol
Llefrith	10c y dydd i blant yr adran iau yn unig	Talu o flaen llaw pob hanner tymor
Gwersi Nofio	£1.50 y wers tuag at gostau cludiant	Talu pob hanner tymor
Cylchgrawn Cip/WCW	£12.00/£17.50	Talu'n flynyddol
Gwersi Offerynnol	£42 am 10 gwर्स	Talu pob tymor www.schoolgateway.com

ANFON ARIAN I'R YSGOL

Pan fyddwch yn anfon arian/siec i'r ysgol a fuasech mor garedig â'u hanfon mewn amlen yn nodi'n glir enw'ch plentyn. Bydd amlenni'n cael eu casglu pob bore a'u hanfon mewn bocs i sylw Della Wyn Jones. Hefyd mae modd i chi dalu ar-lein trwy www.schoolgateway.com

Anfonwn fil i chwi pob diwedd hanner tymor am bethau megis:

Llefrith
Gwersi Nofio
Gwersi Offerynnol

DOGFENNAU'R YSGOL

Gellir archwilio dogfennau'r ysgol, gan gynnwys y polisïau y cyfeirir atynt yn y prospectws hwn, trwy drefniant â'r Pennaeth.

CYMDEITHAS RHieni AC ATHRAWON

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn yr ysgol yn rhoi cyfle i rieni, athrawon a chyfeillion yr ysgol i gydweithio er lles y disgyblion. Bydd y gymdeithas yn cynnal amrywiol weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac yn codi rhai miloedd o bunnoedd i brynu offer i'r ysgol yn flynyddol. Bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal ei chyfarfod blynyddol yn ystod Tymor yr Haf a gwahoddir pob rhiant i fod yn bresennol.

GWYBODAETH BERSONOL

Mae'n eithriadol o bwysig eich bod yn rhoi gwybodaeth lawn i ni ynglŷn â manylion personol pan fyddant yn newid. Rydym yn cadw gwybodaeth o'r fath ar gyfrifiadur yr ysgol, a mater bach yw eu diweddarau. Cofiwch ein hysbysu yn syth am newid cyfeiriad neu rif ffôn, rhifau cysylltu mewn argyfwng a gwybodaeth feddygol, un ai trwy lythyr neu e-bost.

ACHOSION DA

Yn flynyddol, byddwn yn cymryd rhan mewn ymgyrch i godi arian at achos da megis Operation Christmas Child, Plant Mewn Angen, Ward Alaw.

DATGANIAD AR YSMYGU

Mae'r ysgol yn adeilad di-fwg. Ni chaniateir i neb ysmegu yn yr adeilad nac ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg nac wrth ofalu am blant y tu allan i'r ysgol.

CŴN AR DIR YR YSGOL

Ni chaniateir i neb ddod â chŵn (*ac eithrio cŵn tywys*) ar dir yr ysgol wrth nôl a danfon plant, nac i unrhyw weithgareddau a drefnir gan yr ysgol.